Stonewall CYMRU

North Wales Race Equality Network
Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru

Ydych chi'n berson Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol o gefndir Du neu Leiafrif Ethnig yng Nghymru? Rydym am glywed oddi wrthych!

Ydych chi'n lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LHD) ac o gefndir du neu leiafrif ethnig (BME)?

Os felly, hoffem glywed oddi wrthych am y nodweddion da a'r anawsterau sy'n codi yn sgil y ddwy hunaniaeth, a sut brofiad yw byw yng Nghymru.

Mae **Bys yn y Dŵr** yn brosiect bychan i gasglu gwybodaeth yng ngogledd Cymru, gan Rwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru mewn cydweithrediad â Stonewall Cymru, ac yn darparu cyfle i bobl sy'n lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol ac o gefndir du neu leiafrif ethnig i rannu ac ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol o fod yn unigolyn o fewn y ddwy 'gymuned' leiafrifol, gyda'r posibilrwydd o ddatblygu prosiect mwy yn y dyfodol.

Lleolir y prosiect yng ngogledd Cymru, ond hoffem glywed gan bobl LHD BME ledled Cymru. Byddwn yn trin manylion personol â chyfrinachedd llwyr.

Gallwch gyfranogi drwy wneud un neu fwy o'r canlynol:

- ateb ein harolwg byr ar y we (tua 5 munud). Cliciwch yma http://www.surveymonkey.com/s.aspx?sm=sHBNHvWlpOH_2bLnIiHc5C6w_3d_3d
- ymuno gyda'n grŵp 'Toe in the Water' ar Facebook
- cysylltu'n uniongyrchol gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru neu Stonewall Cymru

Hefyd rydym am sefydlu grŵp ffocws anffurfiol ym mis Tachwedd, ond bydd hynny yng ngogledd Cymru, yn sgil cyfyngiadau cyllid.

Mae Jenny a Tue yn edrych ymlaen at glywed oddi wrthych.

Tue Hong Baker
Swyddog Datblygu Prosiect
Rhwydwaith Cydraddoldeb Hil Gogledd Cymru
tue@nwren.org
01492 622233
www.nwren.org

Jenny Porter
Swyddog Cyswllt Cymunedol
Stonewall Cymru
jenny.porter@stonewallcymru.org.uk
01492 622202
www.stonewallcymru.org.uk

Y Ganolfan Cydraddoldeb, Ffordd Bangor, Penmaenmawr, Conwy, LL34 6LF

Ariannir y prosiect hwn gan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WEDHS) www.wedhs.org.uk

WEDHS
Wales Equality and Diversity in Health and Social Care Research and Support Service
Gwasanaeth Cydraddoldeb ac Amrywioldeb Cymru mewn Cefnogi Iechyd ac Ymchwil Gofal Cymdeithasol